# Y Pwyllgor Deisebau

# Cofnodion (PET(3)-05-08)

**Dyddiad: Dydd Iau 10 Ebrill 2008**
**Amser: 12:32 - 14:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru

Michael German, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru

Trish Law, Blaenau Gwent

### Swyddogion

Stefan Sanchez, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cyfreithiwr y Cynulliad

# Eraill yn bresennol

**Ar gyfer eitem 2:**

Douglas Harris, Y Prif Ddeisebwr

Y Cynghorydd Brian Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Tracy Davies, Deisebwr

**Ar gyfer Eitem 3:**

Emma Hill, RhAG

Lynne Feakes, RhAG

Elin Maher, RhAG

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

### Eitem 2: P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465, Tafarnaubach

PET(3) 05-08 Papur 1

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar y deisebwyr.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwybod beth yw cyfrifoldebau'r naill a'r llall mewn perthynas â phriffyrdd

Ysgrifennu at yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn iddynt gadarnhau'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â'r ffordd liniaru

Trefnu i ymweliad â'r safle

### Eitem 3: P-03-103 Addysg Gymraeg yn Sir Fynwy

PET(3) 05-08 Papur 2

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar y deisebwyr.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Holi'r pedwar awdurdod lleol yn ardal yr hen Went ynglŷn â'u safbwynt presennol o ran gweithio fel consortiwm i ddatblygu addysg uwchradd Gymraeg, ac i ofyn am unrhyw sylwadau a wnaed ganddynt i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru am fanylion eu cynllun strategol ar gyfer addysg Gymraeg i weithredu ymrwymiadau polisi 'Iaith Pawb'

## Eitem 4: Deisebau newydd

PET(3) 05-08 Papur 3

**P-03-106** Balchder yn y Barri

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwybod:

Faint o arian a gafodd wrth werthu tir ar lannau'r Barri

Pa gyfran o'r swm hwn gafodd ei ail-fuddsoddi yn y Barri, os cafodd arian ei fuddsoddi o gwbl

Faint y mae Llywodraeth bresennol Cynulliad Cymru wedi'i fuddsoddi yn y Barri

Gofyn i'r deisebwyr roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**P-03-107** Papur Newydd Dyddiol Cymraeg

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog Treftadaeth i ofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor am ei benderfyniad mewn perthynas â dyrannu arian i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg

Gwahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar ôl cael y wybodaeth uchod gan y Gweinidog

**P-03-108** Rhandiroedd

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu ar y deisebwyr i ofyn iddynt roi gwybodaeth fwy penodol am y camau yr hoffent i Lywodraeth y Cynulliad eu cymryd mewn perthynas â diogelu rhandiroedd, o ystyried datganiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gerbron y Cyfarfod Llawn ar 09 Ebrill 2008.

**P-03-109** Cynlluniau gwrth-fwlio mewn ysgolion

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Drefnu i ymweld â'r ysgol i gasglu rhagor o dystiolaeth

**P-03-110** Ysbytai Gogledd Cymru

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried y ddeiseb pan fydd yn penderfynu ar dynged ysbytai Gogledd Cymru

**P-03-111** Uned Llawfeddygaeth y Fron Llandudno

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gadarnhau y bydd gwasanaethau llawfeddygaeth y fron yn parhau yn Ysbyty Llandudno

**P-03-113** Sgrinio am ganser y brostad

**Camau i'w cymryd**

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i'r deisebwyr roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei safbwynt ar ddarparu gwasanaeth sgrinio am ganser y brostad i bawb sy'n gofyn amdano.

**P-03-114** Ffyrdd Diogel i Ysgolion

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

Ysgrifennu ar y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gael gwybod beth yw safbwynt presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofyn i'r deisebwyr nodi'r hyn yr hoffent ei weld yn digwydd i wella diogelwch ffyrdd y tu allan i ysgolion

**P-03-116** Fferm Wynt Coedwig Dyfnant

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Gomisiynu papur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a fyddai'n crynhoi'r wybodaeth a gafwyd gan y deisebwyr, ac i roi trosolwg ar y datblygiad yng Nghoedwig Dyfnant, gan gynnwys rhan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y datblygiad hwnnw

## Eitem 5: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

PET(3) 05-08 Papur 4

**P-03-066** Rheilffordd o Abertawe i'r Mwmbls

Trafododd y pwyllgor bapur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb, gan ei fod yn cydnabod mai mater i awdurdodau lleol yn y pen draw yw trafnidiaeth leol ac yn yr achos hwn, mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu strategaeth sy'n seiliedig ar wasanaeth bysiau

**P-03-067** Tir y Miners' Welfare Ty Du, Nelson

Trafododd y pwyllgor lythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**Cam i'r pwyllgor ei gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo roi gwybod am unrhyw ystyriaeth a roddwyd i ddychwelyd y tir, neu ran o'r tir, i eiddo'r trigolion lleol

**P-03-078** Sgrinio am ganser

Cafodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Aros am ganlyniad sesiwn graffu’r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar 19 Ebrill 2008

**P-03-080** Hen Dy’r Ysgol

Trafododd y pwyllgor lythyr gan Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i dîm cyfreithiol y Cynulliad roi adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol am y wybodaeth a gafwyd gan gyfreithwyr Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor.

**P-03-081** Rheoliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr

Trafododd y Pwyllgor lythyr gan y Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i’r Gweinidog ysgrifennu at y pwyllgor cyn gynted ag y bydd wedi penderfynu ar y cyrsiau i’w nodi mewn unrhyw reoliadau diwygiedig.

**P-03-085** Meddygfeydd yn Sir y Fflint

Trafododd y pwyllgor lythyr gan Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**P-03-089** Ysgolion Cymunedol Powys

Trafododd y pwyllgor lythyr gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ac Estyn.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Aros am ganlyniad ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Gofalu bod y deisebwyr yn cael copi o lythyr Estyn

**P-03-093** Aberddawan

Trafododd y Pwyllgor bapur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ac ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Wahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol

**P-02-098** Yr Arglwydd  Prys-Davies

Trafododd y Pwyllgor lythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg Gydol Oes a Sgiliau a’r deisebwyr.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Ofyn i’r Pwyllgor Menter a Dysgu drafod a oedd ganddo’r adnoddau i ymchwilio i’r posibilrwydd o newid deddfwriaeth yn unol â chais yr Arglwydd Prys-Davies

## Papur i’w nodi

Trafododd y Pwyllgor bapur yn amlinellu hynt yr holl ddeisebau 'byw’.

**Cam i'w gymryd**

Mewn perthynas â P-03-100 Cyffordd Tecso, cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu ar y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei benderfyniad ar y mater hwn.